# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

12 Mai 2014

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais am wybodaeth, o dan Ddeddf Rhydid Gwybodaeth 2000, a ddaeth i law ar 11 Ebrill, pan wnaethoch ofyn:

1. *Roedd y pwyllgor craffu archwilio yn arfer goruchwylio gwaith a chyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. A yw'r rôl hon wedi'i throsglwyddo i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus?*
2. *Beth yw cyllideb flynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (roedd yn arfer bod tua £3 miliwn).*
3. *A yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn craffu ar holl wariant Llywodraeth Cymru? Sut gallaf gael gwybod beth y creffir arno?*
4. *A yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gallu gwario mwy na chyllideb flynyddol gwaith yr Ombwdsmon? Pwy sy'n craffu ar UNRHYW orwariant a'r gwaith cyffredinol o redeg ei swyddfa?*
5. *Os nad ydych yn craffu ar waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, pa bwyllgor sy'n gwneud hynny?*
6. *Faint y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i wario ers mis Mawrth 2009 ar ei ymchwiliad i'r Cynghorydd Patrick Heesom o Gyngor Sir y Fflint? Rhaid i hyn gynnwys yr holl gostau gan gynnwys ffioedd cyfreithiol, gwariant ffioedd Panel Dyfarnu, costau teithio, panel taliadau, cost o drawsgrifio'r holl dystiolaeth a thaliadau ar gyfer llety ar gyfer staff Llywodraeth Cynulliad a llogi ystafelloedd ar gyfer gwrandawiadau'r cyhoedd?*

1. *Roedd y pwyllgor craffu archwilio yn arfer goruchwylio gwaith a chyllideb Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. A yw'r rôl hon wedi'i throsglwyddo i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus?*

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol sy'n craffu ar waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Pwyllgor yn cynnal

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@wales.gov.uk

sesiwn dystiolaeth flynyddol gyda'r Ombwdsmon i ystyried cynnwys ei adroddiad blynyddol a gweithgareddau ei swyddfa yn ystod y flwyddyn.

Y Pwyllgor Cyllid sy'n craffu ar gyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac mae'n rhaid iddo gyflwyno amcangyfrif o incwm a gwariant sy'n rhaid cyrraedd erbyn 1 Tachwedd bob blwyddyn fan bellaf, fel y nodir yng Ngorchymyn Sefydlog 20.23. Y Rheolau Sefydlog yw'r rheolau sy'n llywodraethu busnes y Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn adrodd ar gyllideb ddrafft yr Ombwdsmon ac yn cyhoeddi ei adroddiad ar amcangyfrifiad yr Ombwdsmon ar gyfer 2014-15 ym mis Hydref 2013. Gellir gweld rhagor o wybodaeth o dan Reol Sefydlog 20.24.

2. *Beth yw cyllideb flynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (roedd yn arfer bod tua £3 miliwn).*

Pennir cyllideb yr Ombwdsmon gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei chymeradwyo gan y Cynulliad yn ystod hydref bob blwyddyn. Gellir gweld manylion am y gyllideb flynyddol ar gyfer yr Ombwdsmon yn y *cynnig cyllidebol blynyddol* ar gyfer 2014-15 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar 3 Rhagfyr 2013. Y tudalennau perthnasol sy'n ymwneud â'r Ombwdsmon yw 3, 6, 22, 23, 25, 26, 27 a 28.

3. *A yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn craffu ar holl wariant Llywodraeth Cymru? Sut gallaf gael gwybod beth y creffir arno?*

Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw sicrhau y creffir yn briodol a thrylwyr ar wariant Llywodraeth Cymru. Nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y defnyddir adnoddau i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

Gellir gweld gwybodaeth am y gwaith y mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei wneud ar dudalennau'r Pwyllgor yn:
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=230
neu drwy gysylltu â'r Tîm Clercio Pwyllgor.CyfrifonCyhoeddus@cymru.gov.uk

Mae'r rhan fwyaf o bwyllgorau yn craffu ar Lywodraeth Cymru ac yn dwyn Gweinidogion i gyfrif am yr hyn y maent yn ei wneud a'r arian y maent yn ei wario yn y meysydd datganoledig.

4. *A yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gallu gwario mwy na chyllideb flynyddol gwaith yr Ombwdsmon? Pwy sy'n craffu ar UNRHYW orwariant a'r gwaith cyffredinol o redeg ei swyddfa?*

Pe byddai amrywiad i'r gyllideb ar gyfer yr Ombwdsmon, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig cyllidebol atodol gerbron y Cynulliad. Gellir cael rhagor o wybodaeth o dan Reol Sefydlog 20.36 a Rheol Sefydlog 20.38-40.

5. *Os nad ydych yn craffu ar waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, pa bwyllgor sy'n gwneud hynny?*

Mae gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn perthyn i gylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiwn dystiolaeth flynyddol gyda'r Ombwdsmon i ystyried cynnwys ei adroddiad blynyddol a gweithgareddau ei swyddfa yn ystod y flwyddyn.

6. *Faint y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i wario ers mis Mawrth 2009 ar ei ymchwiliad i'r Cynghorydd Patrick Heesom o Gyngor Sir y Fflint? Rhaid i hyn gynnwys yr holl gostau gan gynnwys ffioedd cyfreithiol, gwariant ffioedd Panel Dyfarnu, costau teithio, panel taliadau, cost o drawsgrifio'r holl dystiolaeth a thaliadau ar gyfer llety ar gyfer staff Llywodraeth Cynulliad a llogi ystafelloedd ar gyfer gwrandawiadau'r cyhoedd?*

Nid oes gan y Cynulliad unrhyw wybodaeth am ymchwiliad y Cynghorydd P Heesom.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i restru fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac mae rheidrwydd cyfreithiol arno i ymateb i geisiadau. Ei fanylion cyswllt yw: ask@ombudsman-wales.org.uk

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF